Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Dai
12.30-1.30pm, 9 Mai 2017

Oriel y Dyfodol, Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd

Yn bresennol

Mike Hedges AC (Cadeirydd)
Ryland Doyle (Swyddfa Mike Hedges AC)
Aaron Hill (Cartrefi Cymunedol Cymru)
David Palmer (Canolfan Cydweithredol Cymru)
David Morgan (RICS Cymru)
John Puzey (Shelter Cymru)
Mark Bodger (CITB)
Katie Dalton (Cymorth Cymru)
Callum Higgins (Canolfan Cyngor ar Bopeth)
Gwendolyn Sterk (Cymorth i Ferched Cymru)
Matt Dicks (Sefydliad Tai Siartredig Cymru)
Matt Kennedy (Sefydliad Tai Siartredig Cymru)
Mark Harris (HBF)
David Wilton (TPAS Cymru)
Peter Wong (Swyddfa Jenny Rathbone AC)
Mia Rees (Wallich)
Daniel Bellis (RLA Cymru)

Cofnodion

1. Sgiliau i gyflawni'r targed o 20,000 o dai fforddiadwy

Rhoddodd Mark Bodger o'r CITB y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am y pwysau presennol ac yn y dyfodol yn wyneb y galw am dai a'r heriau cyfatebol o ran sicrhau llif cyson o sgiliau yn y gweithlu adeiladu.

Cyfeiriodd MB at adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y CITB ar adeiladu oddi ar y safle. Mae'r adroddiad llawn ar gael yma.

Croesawodd Aaron Hill ffocws y cyflwyniad a thynnodd sylw at y gwaith y mae Cartrefi Cymunedol Cymru yn ei wneud mewn partneriaeth â Sefydliad Bevan i edrych ar y sgiliau sydd eu hangen i ddarparu cartrefi ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Tynnodd AH sylw at y prosiect sy’n cael ei redeg gan Coast Housing Group yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr lle caiff tenantiaid eu cyflogi i wneud gwaith crefftus ar y stoc dai. Tynnodd AH sylw hefyd at rōl y Cytundeb Tai a'r cyfleoedd prentisiaeth a ddaw yn sgil hyn.

Gofynnodd John Puzey i MB ymhelaethu ar yr heriau sy’n gysylltiedig ag adeiladu oddi ar y safle a'r effaith ganlyniadol ar les cenedlaethau'r dyfodol. Cadarnhaodd MB y gall fod rhai heriau gan y gallai gwaith adeiladu sy'n digwydd y tu allan i Gymru effeithio ar yr iaith Gymraeg a sgiliau lleol.

Mynegodd JP bryder ynghylch ansawdd systemau adeiladu gan nodi adeiladau parod fel enghraifft. Cytunodd MB nad oedd yr hanes yn wych ond awgrymodd y byddai defnyddio ffrâm bren yn y dull dylunio newydd yn bwysig ond na fyddai hyn yn unig yn ateb cyffredinol.

Gofynnodd Mike Hedges AC gwestiwn ynghylch problemau gydag adeiladu anhraddodiadol. Dywedodd MB fod theori wedi symud ymlaen a bod gwledydd eraill bellach yn gweld llwyddiant trwy ddefnyddio'r dull hwn.

Dywedodd MH y byddai'r targed presennol o 20,000 o gartrefi fforddiadwy wedi cael ei ystyried yn fach ddegawdau yn ôl. Dywedodd MB fod sgiliau yn y sector wedi cynyddu'n sylweddol yn unol â dulliau newydd a theimlai ei bod yn hanfodol ei bod yn cael ei hystyried fel gyrfa o ddewis.

Holodd Peter Wong a oedd rhagolygon sgiliau yn ystyried tai carbon niwtral. Awgrymodd MB fod ystadegau'n ystyried y gweithlu cyfan. Awgrymodd MH y gallai atyniad rhai o'r sgiliau a'r dulliau newydd fod yn broblem.

2. Rhestr wirio i Aelodau'r Cynulliad, Digartrefedd a Deddf Tai (Cymru)

Atgoffodd JP y grŵp y gofynnwyd iddo ef ynghyd â Mia Rees gyflwyno rhestr wirio i Aelodau'r Cynulliad ei defnyddio mewn trafodaethau gydag Awdurdodau Lleol i ystyried i ba raddau yr oedd y dull newydd yn cael ei roi ar waith.

Ychwanegodd MR y byddai defnyddio'r offeryn yn rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad ddysgu am yr arferion gorau a nodi unrhyw fylchau. **MR i ddosbarthu’r rhestr i Aelodau'r Cynulliad ei defnyddio.**

Gofynnodd MH sut yr oedd gallu Awdurdodau Lleol i weithredu’n hyblyg yn gweithio. Awgrymodd MR fod y 56 diwrnod yn ddefnyddiol, yn enwedig o ran cefnogi teuluoedd. Tynnodd JP sylw at y ffaith bod y ffigurau'n awgrymu rhywfaint o newyddion cadarnhaol ond y dylai dangosydd perfformiad defnyddwyr fod ar waith i asesu effaith y ddeddfwriaeth ar fywydau pobl.

Atebodd Daniel Bellis drwy ddweud nad yw eu haelodau Cynllun Rhentu Preifat yn cael fawr o gymorth o weithio'n rhagweithiol i osgoi cael eu troi allan. Soniodd David Palmer am yr heriau’n ymwneud a chynorthwyo cyn-droseddwyr, gan awgrymu bod rôl i bawb yn yr ystafell.

3. Y wybodaeth ddiweddaraf am Gefnogi Pobl

Tynnodd Katie Dalton sylw at waith ymchwil a wnaed gyda defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn ystyried yr effaith yr oedd Cefnogi Pobl wedi ei chael ar eu bywydau. Dywedodd rhai y byddent wedi marw heb gymorth, tra awgrymodd eraill y byddent yn ddigartref.

Tynnodd KD sylw at y rôl sydd gan Cefnogi Pobl o ran gweithio ymhellach i fyny'r gadwyn na'r gwaith atal digartrefedd, felly byddai angen monitro hyn ac asesu ei effaith.

Ystyriodd KD yr Adolygiad o Dai â Chymorth a thynnodd sylw at yr heriau a achoswyd trwy gymhwyso'r cap Lwfans Tai Lleol i dai â chymorth. Nododd KD y cynnydd mewn cyllid datganoledig ond dywedodd fod angen rhagor o wybodaeth am neilltuo cyllid a'i ddosbarthu i roi sicrwydd.

Gofynnodd Matthew Dicks a oedd amcangyfrif o faint y crochan sydd ei angen. Dywedodd KD y byddai hyn yn cael ei asesu, ond roedd pryderon ynghylch sut y byddai'r crochan hwn yn tyfu yn unol â'r galw. Mynegodd AH bryder ychwanegol ynghylch a fyddai ffigur yn seiliedig ar yr hyn y mae Lloegr yn ei wario.

4. Unrhyw fater arall

Tynnodd AH sylw at ymgyrch Cartrefi i Gymru a oedd yn ailgynnull i dynnu sylw at yr heriau sy'n ymwneud â chyflenwad tai a lles yn ystod y cyfnod yn arwain at yr etholiadau Llywodraeth Leol. Byddai digwyddiad llwyfan etholiad yn cael ei gynnal ar 23 Mai.